Dear Colleague,

We are pleased to send you a practical new guide to health and environment activities. It offers a simple checklist to help develop successful projects.

The links between health and environment are increasingly apparent. A poor quality environment can have significant health impacts, whilst enjoyment of the natural environment can benefit well-being. In Wales this is a key element of the cross cutting agenda of sustainable development. The Welsh Assembly Government recognises the potential of the environment for recreation and health in its strategy for physical activity *Climbing Higher*. Regeneration programmes like *Communities First* and *Health Challenge Wales* show that improving people's well being has vital links with the environment and with economic success.

Whilst one aim is to provide opportunities for good health, an equal aim is to protect and enhance the environment in a variety of ways: conservation, resource efficiency, public access, enhancing qualities of local environment, diet and food production, education.

This Guide was largely created at a work-day run by Wales Environment Link Health and Environment Working Group in February 2005. With the support of Health Challenge Wales, members of diversity and environmental organisations worked to identify the factors that make projects work well. The guide presents some real health and environment projects and shares experience of what makes them successful. We are sure this Guide will be useful to you. Please feel free to "cut and paste" the Guide and use it to benefit your own work.

The Guide emphasises strongly the "people and partnerships" approach to developing sound projects. In fact, although focussed on the environment and health, we think it's a quick and useful starting point for setting up partnership-based projects generally – so it has wider application e.g. for community regeneration.

Annwyl Gydweithiwr,

Mae'n bleser gennym anfon canllaw newydd ymarferol atoch sy'n sôn am weithgareddau iechyd ac amgylcheddol. Mae'n cynnig rhestr wirio syml i'ch cynorthwyo i ddatblygu prosiectau llwyddiannus.

Mae'r cysylltiadau rhwng iechyd a'r amgylchedd yn dod yn fwy a mwy amlwg. Gall amgylchedd o ansawdd gwael gael effeithiau sylweddol ar iechyd, tra gall mwynhau'r amgylchedd naturiol wneud pobl yn fwy bodlon. Yng Nghymru mae hyn yn elfen allweddol o agenda drawsbynciol datblygiad cynaliadwy. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod potensial yr amgylchedd o ran hamdden ac iechyd yn ei strategaeth ar gyfer gweithgaredd corfforol Dringo'n Uwch. Mae rhaglenni adfywhau fel Cymunedau yn Gyntaf a Chymunedau Gweithredol, a Her Iechyd Cymru i gyd yn dangos bod gan wella lles pobl gysylltiadau hanfodol â'r amgylchedd a chyda llwyddiant economaidd.

Er mai un amcan yw darparu cyfleoedd ar gyfer iechyd da, amcan sydd yr un mor bwysig yw gwarchod a gwella'r amgylchedd mewn amrywiaeth o ffyrdd: cadwraeth, defnyddio adnoddau yn effeithiol, mynediad cyhoeddus, gwella nodweddion yr amgylchedd lleol, deiet a chynhyrchu bwyd, addysg.

Crëwyd y Canllaw hwn i raddau helaeth yn ystod diwrnod gwaith wrth i aelodau o Weithgor Iechyd ac Amgylchedd Cyswllt yr Amgylchedd Cymru redeg gyda'i gilydd yn Chwefror 2005. Gyda chefnogaeth Her Iechyd Cymru, daeth aelodau o gyrff amrywiaeth ac amgylcheddol ynghyd i nodi'r ffactorau sy'n gwneud i brosiectau weithio'n dda. Mae'r atodiadau yn cyflwyno rhai prosiectau iechyd ac amgylchedd gwirioneddol ac yn rhannu profiad o'r hyn sy'n eu gwneud yn llwyddiannus. Rydym yn sicr y bydd y Canllaw hwn yn ddefnyddiol i chi. Mae croeso i chi "dorri a gludo" unrhyw adran o'r Canllaw a'i ddefnyddio er budd eich gwaith eich hun.

Mae'r Canllaw yn pwysleisio'n gryf pa mor bwysig yw'r dull o weithio gyda "phobl a phartneriaethau" wrth ddatblygu prosiectau cadarn. Mewn gwirionedd, er yn canolbwyntio ar yr amgylchedd ac iechyd, credwn ei fod yn fan cychwyn cyflym a defnyddiol ar gyfer sefydlu prosiectau sy'n seiliedig ar bartneriaethau yn gyffredinol – fel bod ganddo gymhwysiad ehangach e.e. o ran adfywhau cymunedol.

The environmental voluntary sector has a key role in making all this work at community level, through its environmental expertise, and its links with diversity organisations representing sections of the population who may suffer disproportionately from poor environments and health.

Wales Environment Link (WEL) brings together national environmental organisations in Wales, many of whom have an interest in the links between health and the environment. Some organisations have projects in this field, others are looking at how they can broaden their work to encompass health and well-being. Active members of the Health and Environment Working Group include: BTCV Cymru, Butterfly Conservation Wales, Elan Valley Trust, Groundwork Wales, National Trust, Ramblers Association, RSPB Cymru, Sustrans, Woodland Trust, YHA Cymru and WCVA.

We see a real opportunity to link priorities for health and environment in new and exciting ways. We hope you will take some time to consider this guide and remember to use it as a reference point when involved in projects in coming years. We don't pretend to have all the answers - however we are certain that any professional or voluntary group seeking to develop projects that improve public health through preventative measures will benefit from running through this checklist at the project planning and partnership development stage. As a minimum we guarantee it will trigger new ideas and make new connections between the health and environment agendas.

Yours sincerely

Calum Macintosh
Facilitator, Health and Environment Working Group

C.MacIntosh@btcv.org.uk

Mae gan y sector gwirfoddol amgylcheddol rôl allweddol i wneud i hyn i gyd weithio ar lefel gymunedol, drwy ei arbenigedd amgylcheddol, a'i gysylltiadau â chyrff amrywiaeth sy'n cynrychioli adrannau o'r boblogaeth a all fod yn dioddef yn anghyfartal o ganlyniad i amgylcheddau ac iechyd gwael.

Mae Cyswllt yr Amgylchedd Cymru yn dwyn ynghyd gyrff amgylcheddol cenedlaethol yng Nghymru, y mae gan lawer ohonynt ddiddordeb yn y cysylltiadau rhwng iechyd a'r amgylchedd. Mae gan rai cyrff brosiectau yn y maes hwn, mae eraill yn edrych ar sut y gallant ehangu eu gwaith i gynnwys iechyd a lles. Mae'r canlynol yn aelodau o'r gweithgor Iechyd & yr Amgylchedd ar hyn o bryd: BTCV Cymru, Gwarchod Gloynnod Byw Cymru, Elan Valley Trust, Groundwork Cymru, Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru, Cymdeithas y Cerddwyr, RSPB Cymru, Sustrans, Coed Cadw, Ymddiriedolaeth Cwm Elan, YHA Cymru a CGGC.

Felly gwelwn gyfle gwirioneddol yma i gysylltu blaenoriaethau ar gyfer iechyd a'r amgylchedd mewn ffyrdd newydd a diddorol. Gobeithiwn y byddwch yn cymryd amser i ystyried y canllaw hwn a chofio ei ddefnyddio fel teclyn cyfeirio pan fyddwch yn cymryd rhan mewn prosiectau mewn blynyddoedd i ddod. Dydyn ni ddim yn esgus bod â'r holl atebion – ond rydym yn sicr y bydd unrhyw grŵp proffesiynol neu wirfoddol sy'n ceisio datblygu prosiectau sy'n gwella iechyd cyhoeddus drwy fesurau rhagofalus yn elwa o fynd drwy'r rhestr wirio hon yn ystod y cam o gynllunio prosiect a datblygu partneriaeth. Fel isafswm rydym yn sicrhau y bydd yn ysgogi syniadau newydd ac yn creu cysylltiadau newydd rhwng yr agenda iechyd a'r amgylchedd.

Yn gywir,

Calum Macintosh
Cydlynydd, Gweithgor Iechyd ac Amgylchedd
Cyswllt yr Amgylchedd Cymru

C.MacIntosh@btcv.org.uk

Wales Link unites voluntary bodies whose primary aims include the conservation, protection or quiet enjoyment of landscape, wildlife or amenity in Wales.
Mae Cyswllt Cymru yn uno cyrff gwirfoddol sydd â'u hamcanion pennaf yn cynnwys cadwraeth, gwarchodaeth neu fwynhad tawel o dirlun, bywyd gwyllt ac amwynder yng Nghymru
Reg. Charity No: 1022675 Rhif Elusen Gofrestredig: 1022675